Ymgynghoriad: Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi i gefnogi pontio cyfiawn a Chymru fwy gwyrdd – cynigion ar gyfer fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd

Ebrill 2022

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd ac fe hoffai ategu'r pwyntiau a wnaed yn yr ymgynghoriad blaenorol ar y Cynllun Tlodi Tanwydd,[i] yn enwedig ynglŷn â'r angen am gynllun gweithredu uwch ar gyfer y gaeaf/y pandemig ar dlodi tanwydd sy'n lliniaru rhai o effeithiau'r pwysau hyn mewn amseroedd nas gwelsom eu bath o'r blaen.

Effaith costau byw cynyddol ar Dlodi Tanwydd

Yn 2018, amcangyfrifwyd bod yna 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru a bod oddeutu 67,000 o'r rheini yn aelwydydd pobl hŷn.[ii] Fodd bynnag, mae llawer wedi newid dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae pobl hŷn wedi wynebu sawl braw a her.

Yn y lle cyntaf, pan oedd y pandemig yn ei anterth, roedd llawer o bobl yn treulio mwy o amser gartref i gadw nhw'u hunain a'u hanwyliaid yn ddiogel, gan olygu eu bod angen cynhesu mwy ar eu cartrefi tra bod y cynnydd i'r cap ar brisiau ynni ym mis Hydref 2021 wedi arwain at gynnydd o 12% yn y gost o wneud hynny.

At hynny, oherwydd bod y peirianwaith clo triphlyg wedi cael ei atal, ni fydd y cynnydd ym Mhensiwn y Wladwriaeth ar gyfer mis Ebrill yn ddim ond 3.1% tra bod y rhagamcanion ar gyfer y cynnydd mewn chwyddiant yn 8%. Ni fydd y Credyd Pensiwn ychwaith ond yn cynyddu ar yr un gyfradd, gan godi o £177.10 i £182.60 yr wythnos i unigolyn hŷn sengl ac o £270.30 i £278.70 i gwpl.

Ar yr un pryd, dangoswyd nad yw gwerth gwirioneddol Lwfans Tanwydd Gaeaf y Deyrnas Unedig wedi cynyddu ar yr un gyfradd â chwyddiant a'i fod yn awr werth oddeutu £120, sy'n bron hanner gwerth y taliad gwreiddiol.[iii]

Yn fwy diweddar, câi pobl hŷn a oedd yn hawlio'r Credyd Pensiwn eu heithrio o fersiwn gyntaf cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru, er i'r Comisiynydd a nifer fawr o sefydliadau alw am newid y meini prawf cymhwyso[iv].

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r newidiadau a geir yng Nghyllideb Derfynol 2022 - 23[v] a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer fersiwn nesaf y cynllun a fydd ar gael i aelwydydd ar incwm isel a phobl hŷn sy'n hawlio Credyd Pensiwn.

Fodd bynnag, yn sgil y cynnydd diweddaraf yn y cap ar bris ynni, caiff £693 neu 54% ei ychwanegu at fil tanwydd blynyddol aelwydydd ar gyfartaledd o fis Ebrill 2022 ymlaen, rhywbeth sydd eisoes wedi peri gofid i bobl hŷn. Pan fydd pobl hŷn yn teimlo effaith y cynnydd hwn ynghyd â'r costau byw ehangach cynyddol, mae'n anochel y bydd llawer yn

wynebu dewis anodd i naill ai bwyta neu wresogi, yn enwedig yn ystod misoedd oerach y gaeaf, ac maen nhw'n darogan, yn anffodus, fod costau ynni yn debygol o aros yn uchel am y ddwy flynedd nesaf o leiaf.[vi]

Fe wnaeth adroddiad y Comisiynydd 'Gadael Neb ar Ôl: Camau Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn[vii] alw am gyllid cyfalaf i ddarparu rhaglen frys i wneud gwelliannau i gartrefi ar gyflymder ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi nad ydynt yn effeithlon o ran ynni ar draws Cymru, sef y bobl sydd ymysg y rhai sydd fwyaf mewn perygl o gael eu dal mewn tlodi tanwydd. Mae hyn yn fwy angenrheidiol nawr nag erioed.

Mynd i'r afael â Tlodi Tanwydd

Yn ymateb y Comisiynydd i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ym mis Rhagfyr 2020, y cyfeiriwyd ato'n flaenorol, dywedwyd ei bod yn bwysig peidio 'datgysylltu' tlodi tanwydd oddi wrth dlodi ymysg pobl hŷn fel mater ehangach. Y bron i 1 o bob 5 o bobl hŷn sydd eisoes yn byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru ar ddechrau Pandemig Covid-19 yw'r rhai sy'n debygol o deimlo effaith ariannol yr heriau uchod waethaf.[viii]

Mae cynyddu incwm aelwydydd yn ffactor pwysig i atal tlodi tanwydd ac mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn gwbl ymwybodol o'r holl hawliadau ariannol y maent yn gymwys i'w cael a'u bod yn cael eu hannog a'u helpu i gael yr hawliadau hynny.

Amcangyfrifir bod hyd at £214m o Gredyd Pensiwn yn mynd heb ei hawlio bob blwyddyn yng Nghymru.[ix] Fe allai pobl hŷn sydd ag incwm pensiwn o lai na £167.25 yr wythnos (£255.25 i gyplau) fod yn gymwys am daliad Credyd Pensiwn a fyddai'n ychwanegu at eu hincwm. Mae'r rhai sy'n hawlio yn cael £58 yr wythnos ar gyfartaledd a gall hynny wneud gwahaniaeth o oddeutu £3,000 y flwyddyn i'w hincwm. Fe all hawlio Credyd Pensiwn hefyd arwain at lu o hawliadau eraill megis disgowntiau'r dreth gyngor, triniaethau deintyddol am ddim a help gyda chostau tai.

Mae cynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau yn ffordd hollbwysig o fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymysg rhai o'r bobl hŷn dlotaf ac er bod yr ymateb i'r ymgynghoriad blaenorol yn croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan Lywodraeth Cymru i sefydlu Grŵp Hawlio Credyd Pensiwn a gweithgor ar gynyddu incwm yn ehangach, yn ogystal â'r gwaith a wneir gan asiantaethau partner yn y cynllun Nyth i wneud archwiliadau i'r hawl i fudd-daliadau a rhoi cymorth i bobl hŷn fregus, fe ddywedai hefyd fod angen gwneud mwy.

Mae'r Comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar unwaith i hybu Credyd Pensiwn i bobl hŷn drwy gyfrwng ymgyrch cenedlaethol ar y teledu, y radio ac yn y wasg ac i weithio ag awdurdodau lleol ac eraill i adnabod yr unigolion hynny sydd fwyaf tebygol o fod yn gymwys a rhoi iddynt y cymorth y maent ei angen i wneud cais am yr hyn y mae ganddynt hawl iddo.

Cwestiwn 1 Cydbwysedd rhwng Tlodi Tanwydd a Datgarboneiddio

Mae'n amlwg bod angen i fersiwn nesaf y rhaglen Cartrefi Clyd gael cydbwysedd rhwng mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r agenda datgarboneiddio ehangach. Er y cafwyd galwadau i'r rhain gael eu gwahanu yn ddwy raglen ar wahân[x], fe ellid cael y cydbwysedd hwnnw hefyd fodd bynnag drwy flaenoriaethu'r nod o fynd i'r afael â thlodi tanwydd fel prif nod y rhaglen ond y byddai dewis a sefydlu llwybr datgarboneiddio ar gyfer yr aelwydydd hynny, dros ffrâm amser hwy, hefyd yn cyfrannu at yr agenda datgarboneiddio.

Cwestiwn 3 - Maint

Mae'n amlwg bod llawer wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf gyda rhai yn amcangyfrif y bydd dros chwarter miliwn o aelwydydd mewn tlodi tanwydd erbyn Ebrill 2022[xi].

Os yw Llywodraeth Cymru eisiau cyrraedd ei thargedau yn 2035 o 'leihau tlodi tanwydd yn aruthrol a dileu tlodi tanwydd difrifol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol'[xii], yna mae'n rhaid iddi fod yn barod i gynyddu'r rhaglen a buddsoddi llawer mwy.

Cwestiwn 4 – Targedu a Phwy Sy'n Gymwys

Ochr yn ochr â'r cynnydd mewn cyllid mae angen ailystyried y blaenoriaethau yn y rhaglen er mwyn ailsefydlu ac ailddatgan egwyddorion dull sy'n seiliedig ar y tŷ cyfan, gan ganolbwyntio ar adeiladwaith yn gyntaf/y gwaethaf yn gyntaf. Mae hyn yn golygu targedu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd difrifol neu fynych i ddechrau a sicrhau bod y mesurau a ddarperir yn rhoi sylw i'r gofynion effeithlonrwydd thermol ac adeiladwaith y tŷ cyfan yn hytrach nag ond yn edrych ar adnewyddu'r system wresogi.

Dylai fod ar gael i bob aelwyd sydd angen cymorth ac ni ddylai aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd orfod cyfrannu dim yn ariannol. Dylai hefyd ariannu gwaith angenrheidiol ychwanegol a chostau eraill, megis ailweirio, uwchraddio'r system drydanol, ailaddurno, a gwasanaethu a chynnal a chadw parhaus.

Dylai meini prawf cymhwysedd y rhaglen nesaf gynnwys y meini prawf a gyflwynwyd dan y treial Cyflyrau Iechyd i gynnwys pobl sydd â chyflyrau iechyd rhagnodedig megis clefydau anadlol, clefydau cardio-fasgwlaidd, neu gyflyrau iechyd meddwl yn ogystal â rhai sydd dros 75 sydd ag ond ychydig o gynilion. Dylai'r rhaglen newydd hefyd gynnwys yr aelwydydd incwm isel hynny nad ydynt o bosibl yn cael budd-daliadau sy'n seiliedig ar brofion modd.

Cwestiwn 10 - Mesurau

Mesurau effeithlonrwydd ynni cartrefi ddylai fod yn brif ystyriaeth yn hytrach na chynllun adnewyddu bwyleri - effeithlonrwydd thermol gan gynnwys inswleiddio waliau ceudod ac atal drafftiau. Rhaid gweithredu drwy'r tŷ cyfan drwy wneud gwelliannau i'r adeiladwaith ehangach gan gynnwys ffenestri, drysau, a thrwsio toeau os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cartrefi mor effeithlon â phosibl o ran gwres.

Yna, fe ddylai systemau gwresogi sy'n gweithio gael eu hasesu am effeithlonrwydd tanwydd cyn cael eu trwsio neu'u hadnewyddu – dylai hyn wedyn gael ei nodi fel dechrau trywydd datgarboneiddio sy'n nodi dyddiad diweddarach i wneud asesiad ar gyfer ymyraethau pellach a symud at system wresogi carbon isel.

Cwestiwn 14 – **Hygyrchedd a chyngor**

Dylai fersiwn nesaf y rhaglen Cartrefi Clyd gymryd y gwersi a ddysgwyd o brosiect peilot y Gwasanaeth Cynghori y llynedd, yn ogystal â phrofiad asiantaethau partner eraill yn y rhaglen Cartrefi Clyd sydd wedi rhoi cyngor a chymorth ar feysydd fel cynyddu incwm. Dylid ymestyn ymhellach rôl cynghorwyr 'trydydd parti' y gallwch ymddiried ynddynt – i ddarparu cymorth wyneb yn wyneb, yn y cartref mewn nifer o feysydd megis cyngor ar ddefnyddio ynni, cynyddu incwm a chymorth i gael y contract ynni gorau.

Peirianweithiau cyflenwi a monitro

Gall parhau â dull gweithredu seiliedig ar ardaloedd ochr yn ochr â chynllun ar sail galw arwain at arbedion maint ond mae'n amlwg bod angen cydlynu pethau'n well gyda gweithgareddau adfywio eraill a ariennir yn cael eu cyflenwi ynghyd â gwell cydweithio ag awdurdodau lleol.

Dylai cynllun seiliedig ar ardaloedd hefyd fodd bynnag fod yn gallu bod yn hyblyg o safbwynt meini prawf cymhwyso aelwydydd er mwyn cyflawni'n effeithiol ar ôl-troed ardal. Unwaith eto, rhaid inni ddysgu oddi wrth y gwersi a gafwyd o werthuso'r cynllun blaenorol Arbed[xiii], gan gynnwys data gwell ar arian aelwydydd a'u gwariant ar ynni cyn ac ar ôl gweithredu'r mesurau er mwyn mesur effeithiolrwydd y cynllun yn well.

Rhaid i unrhyw fersiwn i'r dyfodol o'r Rhaglen Cartrefi Clyd sicrhau bod argymhellion adroddiad Archwilio Cymru[xiv], yn enwedig o amgylch monitro contractau a'r trefniadau gwerthuso hefyd yn cael eu gweithredu'n llawn.

Cwestiwn 19 – Deddfwriaeth a Rheoliadau

Dylai'r rhaglen Cartrefi Clyd gael ei disgrifio mewn rheoliadau manwl (diwygiedig) yn hytrach na chael ei chyflwyno fel rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel y Gronfa Cymorth Dewisol.

Fodd bynnag, fe allai rhai o'r manylion mwy technegol, fel y mathau o fesurau sydd ar gael yn y rhaglen, gael eu cyflwyno mewn Arweiniad er mwyn bod yn gallu ymateb i ddatblygiadau a newidiadau arloesol mewn technoleg carbon isel.

Mae disgrifio'r rhaglen mewn deddfwriaeth yn rhoi mwy o hyder y caiff y cyllid ei sicrhau o un flwyddyn i'r llall a bod aelwydydd, sefydliadau cymorth cyflawni a chadwyn gyflenwi'r diwydiant yn gallu gwneud cynlluniau a'u gweithredu.

Casgliadau

Tra bo'r ystyriaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â fersiwn nesaf y rhaglen Cartrefi Clyd ar gyfer 2023, mae difrifoldeb effaith y pandemig, costau ynni a chostau byw cynyddol oll wedi cael effaith ddifrifol ar iechyd a lles miloedd o bobl hŷn yng Nghymru dros y gaeaf hwn ac mae hyn yn debygol o barhau gydol y flwyddyn ac i mewn i'r gaeaf nesaf.

Mae gofyn sefydlu mesurau brys yn awr i liniaru'r effaith gatastroffig y mae'r pwysau hyn yn ei chael, ac yn mynd i'w chael, ar fywydau rhai o aelodau mwyaf bregus ein cymunedau.

Mae gofyn sefydlu cynllun gweithredu tebyg i Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) i estyn allan at bobl hŷn yr amheuir eu bod yn byw mewn aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd. Mae hyn yn golygu defnyddio'r amrywiol ryngweithiadau y mae sefydliadau, busnesau, unigolion, a gweithwyr proffesiynol yn eu cael â phobl hŷn i ganfod a ydynt yn byw mewn aelwyd sy'n dlawd o ran tanwydd a/neu'n ei chael yn anodd cadw eu hunain yn gynnes ac iach.

Yn ei hadroddiad 'Gadael Neb ar Ôl: Camau Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn'[xv] gwnaeth y Comisiynydd sylw ar y gwaith ardderchog a wnaeth gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol, elusennau, busnesau lleol, a llywodraeth leol wrth iddynt ddod ynghyd i helpu pobl hŷn a'r bregus yn ystod y pandemig.

Yn yr adroddiad hwnnw, galwodd y Comisiynydd i gofrestr o bobl a oedd angen cymorth gael ei greu, ar y pryd fe'i bwriadwyd ar gyfer rhoi cymorth gyda bwyd ac arian, ond mae'r egwyddor o adnabod a helpu'r rhai sy'n fregus yr un mor ddilys o hyd ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Fe ellid atgyfeirio o'r gofrestr gymunedol i'r gwasanaeth cynghori Cartrefi Clyd a allai wedyn gynghori a helpu pob aelwyd wrth iddynt gael asesiad o'r tŷ cyfan, gan edrych ar effeithiolrwydd thermol y cartref yn ogystal ag asesu effeithlonrwydd y system wresogi. Gallai hwn fod yn ddechrau i'r llwybr datgarboneiddio.

I gyd-fynd â'r cynllun lleol dan ofal y gymuned, dylid cynnal ymgyrch hawlio Credyd Pensiwn cenedlaethol, uchel ei broffil wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar y prif sianeli teledu, y gorsafoedd radio ac yn y wasg leol a chenedlaethol. Byddai'r gwasanaeth cyngor a chymorth Cartrefi Clyd hefyd yn gallu gofyn i bobl hŷn a ydynt yn ymwybodol o'r ymgyrch ac a ydynt yn cael eu holl hawliadau ariannol.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac ymarfer er mwyn gwella'u bywydau. Mae'n darparu help a chymorth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy gyfrwng ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael gwrandawiad ac y gweithredir arnynt. Caiff rôl y Comisiynydd ei hategu gan set o bwerau cyfreithiol unigryw i'w helpu i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dwyn i gyfrif pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi diwedd ar ragfarn a gwahaniaethu ar sail oedran, i roi diwedd ar gamdriniaeth yn erbyn pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod yn lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

e-bost: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: @talkolderpeople

---

[i] OPCW - (2020) Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Dlodi Tanwydd Ar gael yn - http://bitly.ws/oPnV
[ii] Llywodraeth Cymru (2019) - *Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru: 2018.* Ar gael yn https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018
[iii] Gwnaed y newid parhaol diwethaf i lefel y Taliad Tanwydd Gaeaf yn 2001 (£200 i rai dan 80 a £300 i rai dros 80). Fe'i cyfrifwyd gan ddefnyddio Cyfrifydd Chwyddiant Banc Lloegr. Ar gael yn: http://bitly.ws/oPoQ
[iv] OPCW - (2022) Cyd-ddatganiad: ar yr argyfwng costau byw. Ar gael yn http://bitly.ws/oPoI
[v] LIC (2022) Cyllideb Derfynol Ddrafft. Ar gael yn http://bitly.ws/oRWK
[vi] BBC News (2022) High energy bills to last two years – Ar gael yn http://bitly.ws/oPoT
[vii] OPCW (2020). Gadael Neb ar Ôl. https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-gadael-neb-ar-ol-2020/
[viii] OPCW (2021) Adroddiad Cyflwr y Genedl 2021.- Ar gael yn https://www.olderpeoplewales.com/cy/reviews/sotn.aspx
[ix] Independent Age. (2019). *Pension Credit: A closer look.* http://bit.ly/2mFWIXz
[x] Sefydliad Bevan (2022) Equality and Social Justice inquiry response – Ar gael yn http://bitly.ws/oPpQ
[xi] ITV News Wales (2022) Quarter of a million Welsh households will be in fuel poverty by April - Ar gael yn http://bitly.ws/oPqc

[xiii] LIC (2022) Gwerthusiad o Arbed 3 – Ar gael yn https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-arbed-3

[xiv] Archwilio Cymru (2021) Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Ar gael yn https://www.audit.wales/cy/publication/rhaglen-cartrefi-clyd-llywodraeth-cymru
[xv] OPCW – (2020) 'Gadael Neb ar Ôl: Camau Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn: Ar gael yn https://www.olderpeoplewales.com/cy/news/news/20-08-18/Leave_no-one_behind_Action_for_an_age-friendly_recovery.aspx